# Cenn@d

MAI 28 2025 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 222

## Llongyfarch Tair

Hyfryd yw cael llongyfarch tair merch yn y rhifyn cyfredol hwn o *Cenn@d*: Elinor Wyn Reynolds ar ei phenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Anna Jane Evans ar ei hethol yn Faer Tref Caernarfon, ac Ann Bowen Morgan yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion. Dymunwn yn dda iddynt yn eu swyddi newydd.



Daeth y cyhoeddiad rai dyddiau yn ôl mai Elinor Wyn Reynolds fydd Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gan olynu'r Parchg Dyfrig Rees yn y swydd.

Mae Elinor yn aelod yn Eglwys y Priordy, Caerfyrddin, ac wedi bod yn gweithio yn Nhŷ John Penri ers rhai blynyddoedd, gan ofalu am gyhoeddiadau'r Undeb.

Elinor yw'r lleygwr cyntaf ers can mlynedd i dderbyn y swydd hon, a hi yw'r ferch gyntaf i gael ei phenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol yn hanes yr Annibynwyr. Boed bendith Duw ar ei gwaith!

Dymunwn ei llongyfarch yn wresog iawn, gan ddymuno pob llwyddiant a rhwyddineb iddi yn y swydd bwysig hon.

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda Elinor fel cydlynydd cyhoeddiadau Undeb yr Annibynwyr, gan ein bod yn gwerthfawrogi'r berthynas rhyngom fel *Cenn@d* a'r *Tyst*.



Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Ann Bowen Morgan ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2025–6. Bu'n cynrychioli ward Llanbedr Pont Steffan ar y Cyngor Sir er 2022, yn aelod o Gyngor Tref Llanbed er 2013 a gwasanaethodd fel Maer y Dref rhwng 2018 a 2019. Mae'n ffigur blaenllaw yn ei chymuned: yn gadeirydd Cylch Meithrin Pont Pedr a Phwyllgor Gŵyl Ddewi Llanbedr Pont Steffan, yn un o ymddiriedolwyr y Ganolfan Deulu, yn ogystal ag un o lywodraethwyr Ysgol Bro Pedr. Mae Ann yn diwtor Cymraeg i oedolion gyda Phrifysgol Aberystwyth, yn drefnydd y Siop Siarad i ddysgwyr Cymraeg ac yn aelod o bwyllgor Eisteddfod Rhys Tomos James Pantyfedwen. Mae hefyd yn canu mewn dau gôr, Côr Corisma a Chôr Bytholwyrdd.

Fe'i ganwyd ym Mhenarlâg, Sir y Fflint, ei magu yn y Rhyl a'i haddysgu yn Ysgol Glan Clwyd a Phrifysgol Bangor. Bu'n byw yn Rhydychen, Pen-y-groes, Llanelli, Llanddaniel-fab ar Ynys Môn ac yna ym Mangor. Mae'n briod â'r Parchg Ddr Densil Morgan, gweinidog Cylch Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi, yn fam i Angharad ac Iwan, ac yn fam-gu i Alisha, Cai ac Elis.

Mae ei hymrwymiad Cristnogol yn un cadarn. Ym Mangor bu'n aelod, yn ddiacon ac yn ysgrifennydd Eglwys Penuel (Eglwys Emaus erbyn hyn), ac ers symud i Lanbed yn 2011, mae'n aelod yn eglwys Noddfa gan wasanaethu bellach fel diacon ac ysgrifennydd. Mae'n un o ymddiriedolwyr Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn gyn-lywydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion.

Wrth gael ei hethol, dywedodd: 'Mae'n fraint ac yn anrhydedd dod yn Gadeirydd ac ennill ymddiriedaeth fy nghyd-gynghorwyr. Gobeithio y gallaf lywio cyfarfodydd y Cyngor yn ddoeth a gyda'n gilydd wneud penderfyniadau er budd pobl ein sir. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gynrychioli Cyngor Sir Ceredigion mewn amryw o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir yn ystod y flwyddyn nesaf.'



Anna Jane Evans

'Dwi'n wirioneddol mwynhau bod ar y Cyngor – criw da o bobl isio gwneud gwahaniaeth a chynnig gwasanaethau gwerthfawr i'r dre. Mae Caernafon yn lle arbennig iawn ac mae Cymreictod naturiol bywyd bob dydd yn rhywbeth rydan ni'n ei gymryd braidd yn ganiataol weithiau. Bydd cael gwahoddiadau gan feiri eraill trefi caerog i fynd i ddigwyddiadau yn rhoi cipolwg o fywyd gwahanol iawn, debyg.

'Mae'n gyfnod anodd i unigolion a byd, a gobeithio bydd hwn yn gyfle i dynnu pobl at ei gilydd o'r newydd, fel y gwnaeth COVID dynnu'r gorau allan ohonom yn ein gofal am gymdogion a chymuned.

'Y gweinidog cyntaf i fod yn faer Caernarfon? Wn i ddim! Ond o safbwynt o geisio gwasanaethu ac nid lordio dwi'n dod. A tydi gwisgo i fyny a seremoni ddim yn dod yn hawdd!

'Ond diolch – rydw i'n ei chyfrif yn fraint fawr.'

'Mae Mizoram wedi cydio yn fy nghalon': argraffiadau Joseff Edwards
Tudalen 3

O Gefn Gwlad
Tudalen 7

Ieuenctid Cymru'n cefnogi ieuenctid Gaza
Tudalen 8